# PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD MAWRTH, 14 CHWEFROR 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McKerlich(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Howells, Hyde, Keith Jones a/ac Simmons |

## 44 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Ed Stubbs.

## 45 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

## 46 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 47 : CYFARFOD BLYNYDDOL DIRPRWYON Y CELFYDDYDAU

**Nid yw Atodiadau B2, B3, B4 a B5 yn Atodiad B yr adroddiad hwn i'w cyhoeddi dan Adran 12A Rhan 4 paragraff 14 yn unol ag Adran 12A Rhan 5 paragraff 21 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Peter Bradbury, Aelod Cabinet dros Datblygu Cymunedol, Cydweithrediadau a Mentrau Cymdeithasol, Neil Hanratty, Cyfarwyddwr – Datblygu Economaidd a Roger Hopwood, Rheolwr Celfyddydau a Theatrau i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bradbury i wneud datganiad. Nododd er bod y penderfyniad i ddileu'r MDA Celfyddydau a Diwylliant a chael Uwch Fodel Mewnol yn lle wedi cymryd amser, mae er budd pawb sydd ynghlwm i'r Cyngor fod yn rheoli'r lleoliadau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i Neil Hanratty, Cyfarwyddwr - Datblygu Economaidd i gyflwyno i'r Aelodau.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Roedd yr Aelodau'n falch o weld y penderfyniad ond yn holi am y cost oedd ynghlwm wrth y broses. Cawsant wybod mai'r un tîm ddeliodd â'r MDA a'r Uwch Fodel Mewnol.

- Eglurodd Swyddogion mai'r her yw sicrhau bod capasiti i ddelio â materion cymhleth.

- Cafodd yr Aelodau wybod ei bod hi'n angenrheidiol i berthnasoedd newydd ddatblygu, ymhlith yr enghreifftiau oedd y BBC ac OCC.

Fodd bynnag, roedd hi'n bwysig bod arbedion gweithredol ac arbedion refeniw.

- Cafodd yr Aelodau wybod bod angen cyflawni arbedion o £417k eleni dros y ddwy lwybr, ynghyd ag arbedion y llynedd, sef £130k.
  Mae'r Swyddogion yn hyderus y bydd yr arbedion hyn yn cael eu cyflawni drwy gyfuniad o fwy o werthiannau ac arferion gwaith gwell.

- Rhoddwyd gwybod i Aelodau bod angen ystyried yn fanwl sefydliadau 'nid er elw', megis ymddiriedaeth.
  Gall y sefydliadau hyn hawlio Ardrethi Annomestig Cenedlaethol hanfodol sydd hefyd o gymorth wrth gyflawni'r arbedion.

CYTUNWYD: Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet a'r swyddogion perthnasol yn diolch iddynt am fynychu'r cyfarfod ac i gyfleu arsylwadau'r Pwyllgor.

48 : CYNIGION DRAFFT CYLLIDEB 2017/18 A CHYNLLUN CORFFORAETHOL 2017 – 2019

Trosolwg Corfforaethol

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey, Aelod Cabinet dros Berfformiad a Gwasanaethau Corfforaethol, Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ac Ian Allwood, Pennaeth Cyllid.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Hinchey wneud datganiad. Ar ôl hynny, cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar y Cynigion Cyllideb Drafft 2017/18. Yna gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau os oedd ganddynt gwestiynau a sylwadau:

- Rhoddwyd gwybod i Aelodau bod yr hysbysiad am y setliad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n hwyr, ond ei fod yn well na'r disgwyl.
  O ganlyniad mae'r Dull Gwytnwch Ariannol (FRM) bellach yn £4m. Ymhellach i hynny, mae lefel y cynllun wrth gefn wedi'i leihau i £3m. Trafododd yr Aelodau'r defnydd o'r FRM ar gyfer y flwyddyn nesaf.

- Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y lefel ddyled bresennol, oddeutu £666m ac am ba mor hir y bydd y symiau benthyg sylweddol yn parhau.
  Rhoddwyd gwybod i Aelodau bod adolygiadau cadarn wedi'u cynnal a chyngor cadarn hefyd.

- Rhoddwyd gwybod i Aelodau y byddai'r cyllid yn parhau ar gyfer Operation Mistletoe o arian wrth gefn wedi'i glustnodi.

Cyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Phil Bale – yr Arweinydd, Datblygu Economaidd a Phartneriaethau, y Cynghorydd Peter Bradbury, Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cymunedol, Cydweithrediadau a Mentrau Cymdeithasol, Neil Hanratty, Cyfarwyddwr, Datblygu Economaidd, Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ac Ian Allwood, Pennaeth Cyllid i'r cyfarfod.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Bale wneud datganiad. Cyfeiriodd at y Fargen Ddinesig, yr Ardal Gwella Busnes, y Sgwâr Canolog, yr Arena Dan Do a'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad gan Neil Hanratty, Cyfarwyddwr; gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

- Rhoddwyd gwybod i Aelodau bod hyder ynghylch cyflawni'r arbedion a nodwyd, hyd yn oed yn wyneb Brexit.

- Roedd yr Aelodau eisiau gwybod a fyddai modd i'r Cyngor gynnig cymorth ariannol i'r Cyngor yn wyneb Brexit. Nid oedd modd cynnig cymorth ariannol mwyach, ond gellid cael cyngor ynghylch sut i gael cymorth a gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru.

<u>Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas</u>

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Peter Bradbury, Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cymunedol, Cwmnïau Cydweithredol a Mentrau Cymdeithasol, y Cynghorydd Bob Derbyshire, Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd, Andrew Gregory, Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas, Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ac Ian Allwood, Pennaeth Cyllid i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorwyr Bradbury a Derbyshire i wneud datganiad. Cafodd yr Aelodau gyflwyniad gan Andrew Gregory, Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas; gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

- Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth ynghylch y cyfleusterau chwaraeon fyddai'n cael eu hadfywio drwy ddyrannu cyllid Dull Gwytnwch Ariannol.
  Cawsant wybod hynny a bod adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, a bydd gwybodaeth yn cael ei darparu i'r Pwyllgor ei hystyried maes o law.

- Cafodd yr Aelodau wybod bod swyddogion yn ymarferol yn ceisio noddwyr amgen ar gyfer yr RHS, a chafodd ei nodi bod gwerthiannau tocynnau ar i fyny ers y llynedd.

<u>Cyfarwyddiaeth Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid</u>

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Peter Bradbury, Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cymunedol, Cwmnïau Cydweithredol a Mentrau Cymdeithasol, y Cynghorydd Dan De'Ath, Aelod Cabinet dros Sgiliau, Diogelwch, Ymgysylltu a Democratiaeth, Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ac Ian Allwood, Pennaeth Cyllid i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorwyr Bradbury a De'Ath i wneud datganiad. Cafodd yr Aelodau gyflwyniad gan Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid; gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

- Cafodd yr Aelodau wybod y byddai darpariaeth llyfrgell ar gael yn Hyb Llanrhymni os oedd y bid am arian yn llwyddiannus neu beidio.

- Nododd y Swyddogion er nad yw'r cyllid wedi'i ddyrannu yn y gyllideb am welliannau i Hybiau presennol yn y ddinas, mae'r gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid sector cyhoeddus i lywio gwelliannau gwasanaeth a phrofiad cwsmer gwell.
  Bydd y Pwyllgor yn clywed diweddariadau maes o law.

CYTUNWYD: Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet a'r swyddogion perthnasol yn diolch iddynt am fynychu'r cyfarfod ac i gyfleu arsylwadau'r Pwyllgor.

49 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir ar ddydd Iau 9 Mawrth 2017 am 4.30 pm.